Canllawiau Cerdded
Walks Guide

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

2 Cylchdaith Llyn Crafnant
Llyn Crafnant Circuit

UCHAFBWYNTIAU

Mwynhewch yr olygfa ar draws y llyn at y creigiau ar ben Cwm Crafnant a Gwarchodfa Natur Genedlaethol Cwm Glas Crafnant.

Dilynwch y llwybr gan ddringo'n raddol i fyny'r dyffryn; mae clogwyni mawreddog a hen fwyngloddiau llechi ar bob ochr. Ar y clogwyni serth uwchben, ceir coed ynn prin. Ar y daith hon mae'r golygfeydd gorau o Warchodfa Natur Genedlaethol Cwm Glas Crafnant - a hynny gan nad oes llwybrau drwy'r warchodfa serth iawn hon.

Dilynwch y llwybr ar hyd y ffordd darmac i ddychwelyd i'r maes parcio.

HIGHLIGHTS

Take in the view across the lake to the crags at the head of the Crafnant Valley and Cwm Glas Crafnant National Nature Reserve.

Follow the trail, climbing gently up the valley; the view is framed by imposing crags and old slate mines. The trees on the steep cliffs above are part of a rare type of ash woodland.

The best views of Cwm Glas Crafnant National Nature Reserve are from this walk as there are no paths through this very steep reserve.

The trail returns to the car park along the tarmac road.

www.cyfoethnaturiol.cymru
www.naturalresources.wales

Cymru Wales



© Cyfoeth Naturiol Cymru a hawl cronfa ddata. Cedwir pob hawl. Yn cynnwys data'r Arolwg Ordnans © Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata.
Rhif trwydded Arolwg Ordnans AC0000849444. Cafodd data ei ddigideiddio o ddata © pob un o'r 22 Awdurdod Lleol yng Nghymru. 2025.
© Natural Resources Wales and database right. All rights reserved. Contains OS data © Crown Copyright and database rights.
Ordnance Survey Licence number AC0000849444. Data was digitised from data © all 22 Welsh Local Authorities. 2025.

Cylchdaith Llyn Crafnant
Llyn Crafnant Circuit



Yn cynnwys gwybodaeth sector cyhoeddus a drwyddedwyd dan Drwydded Llywodraeth Agored v3.0. Contains public sector information licensed under the Open Government Licence v3.0.

Dilynwch yr arwyddion sydd â'r symbolau melyn

Dechrau: Maes parcio Llyn Crafnant
Gradd: Hawdd
Amser: 1-2 awr
Pellter: 3.1 milltir | 5km
Dringo: 486tr | 148m

Disgrifiad: Mae'r llwybr cylchol hwn yn dilyn amrywiaeth o draciau llydan, ffyrdd tarmac a ffyrdd coedwig, ac mae rhai rhannau mwy garw wrth ymyl y llyn. Ar y llwybr mae tair giât mochyn sy'n hygyrch i bramiau a chadeiriau olwyn mwy cadarn. Mae dwy fainc lle gallwch aros ac edmygu'r olygfa o'r llyn a'r mynyddoedd.

Follow the yellow waymarker symbols

Start: Llyn Crafnant car park
Grade: Easy
Time: 1-2 hours
Distance: 3.1 miles | 5km
Climb: 486ft | 148m

Description: This circular route follows a mixture of wide tracks, tarmac and forest roads, with some rougher sections alongside the lake. Along the route there are three kissing gates which are accessible for prams and off-road wheelchairs. There are two benches where you can stop to take in the view of the lake and mountains.